

## Gwobr Llwyddiant Ieuenctid Terry Price

Mae Cyngor Cymuned Llanedi yn dymuno cydnabod a dathlu llwyddiannau pobl ifainc sy'n byw o fewn ei ardal - pentrefi Tycroes, Llanedi, Y Fforest a'r Hendy (yn cynnwys Talyclun). Mae'r Cyngor, felly, wedi sefydlu gwobr a gyflwynir yn flynyddol i berson ifanc o dan 25 oed, a ystyrir i fod yn deilwng o gydnabyddiaeth am ei (l)lwyddiant personol.

Cyflwynir y wobr am lwyddiant personol nodedig mewn unrhyw faes, yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y canlynol:-

**Chwaraeon:** yn cynnwys pob gêm tîm, athletau, chwaraeon neu weithgareddau unigol ( megis golff, pysgota), mewn gair unrhyw beth a gydnabyddir fel gornest chwaraeon cystadleuol.

**Y Celfyddydau Creadigol a Mynegiannol:** yn cynnwys drama, ysgrifennu, cerddoriaeth, celf, crefftau ac unrhyw weithgaredd creadigol arall.

**Gweithgareddau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Chymunedol:** yn cynnwys gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd lleol a bywydau pobl o fewn y gymuned (e.e. gweithred unigol neu weithgarwch yn cynnig cymorth neu garedigrwydd at eraill, megis cynorthwyo'r methodig neu'r rhai dan anfantais neu ofalu am aelod anabl o'r teulu).

**Llwyddiant Academaidd:** yn cynnwys llwyddiant eithriadol mewn arholiadau cyhoeddus neu fesur cyfatebol arall o lwyddiant a chynnydd arwyddocaol mewn goresgyn anawsterau penodol personol, megis afiechyd, anabled neu anfanteision a rhwystrau eraill i lwyddiant.

### CYMHWYSTRA

- Rhaid i'r enwebedig fod o dan 25 ar y 1af Ionawr yn y flwyddyn y cyflwynir y wobr.
- Rhaid i'r enwebedig fod yn un o drigolion Cymuned Llanedi (h.y. Tycroes/Llanedi/ Y Fforest/Yr Hendy/Talyclun) yn barhaus am o leiaf 2 flynedd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. (*Diffinnir "Trigolyn" fel yr enwebedig (neu ei rieni/ gofalwyr) yn ymddangos ar gofrestr etholiadol Yr Hendy, Llanedi neu Ward Tycroes yn ystod y cyfnod dan sylw ac nid yw trigolion dros dro, megis myfyrwyr mewn tai rhent yn gymwys.*)

### RHEOLAU

- Bydd y wobr yn cynnwys £100 mewn arian a phlac i'w gadw gan y derbynnydd.
- Nid ysgoloriaeth mo'r wobr ac fe'i cyflwynir i gydnabod cyflawniad yn y **gorffennol**.
- Rhaid cyflwyno enwebiadau yn ysgrifenedig (naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg) cyn 3ydd Ebrill yn y flwyddyn berthnasol mewn llythyr neu e-bost i Mr. Owen J. Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanedi, i 60 Parc Howard Avenue, Llanelli, SA15 3JY neu owenjones@hotmail.co.uk.
- Rhaid cefnogi'r enwebiadau gyda thystiolaeth briodol (e.e. tystysgrifau, cofnodion cyrhaeddiad) neu gyda datganiad ysgrifenedig gan o leiaf un dyfarnwr priodol a ddylai ardystio a dilysu'r enwebiad.
- Bydd angen i'r enwebedig roi ei ganiatâd/ei chaniatâd ysgrifenedig am y cais.
- Gall Aelodau Cyngor Cymuned Llanedi enwebu ymgeiswyr am ystyriaeth, ond ni fydd Aelodau na Swyddogion y Cyngor yn gymwys am enwebiad.
- Gellid atal y wobr oni fydd cais o safon gymeradwy.
- Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol.

*Nodwch, os gwelwch yn dda, y cyflwynir y wobr yng Nghinio Blynyddol Cadeirydd y Cyngor ac y bydd manylion y cyflwyno yn cael eu rhyddhau i'r wasg leol a bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt yn gyffredinol.*